Ysgolion uwchradd 1

Cwestiynau hunanfyfyrio i gynorthwyo ysgolion uwchradd wrth gynllunio ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru

Mewn llawer o achosion, mae staff yn teimlo bod y posibiliadau y mae dylunio eu cwricwlwm newydd yn eu rhoi iddynt yn eu grymuso. Mae diffygion cyffredin ym mharatoadau ysgolion yn cynnwys:

- cynllunio dulliau thematig neu drawsgwricwlaidd heb ystyried yn ofalus pam y gallent fod yn fuddiol
- meddwl yn fwy am beth yr hoffent i ddisgyblion ei wneud yn hytrach na'r hyn yr hoffent iddynt ei ddysgu
- cyflwyno taflenni ticio i ddisgyblion nodi pa agwedd benodol ar bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru roeddent yn ei datblygu
- peidio ag ystyried sut y gallai fod angen addasu addysgu i gyd-fynd ag unrhyw ddatblygiadau

Gallai'r ystyriaethau canlynol eich helpu i feddwl am ba mor dda y caiff hyn ei wneud yn eich ysgol chi:

- A oes gennych sail resymegol glir o ran sut bydd unrhyw newidiadau rydych yn bwriadu eu gwneud yn gwella dysgu disgyblion?
- A ydych wedi cynllunio ar gyfer dilyniant mewn medrau a gwybodaeth bynciol ac wedi meddwl am y profiadau dysgu a fydd yn ategu hyn?
- A ydych wedi meddwl am gynnydd disgyblion mewn partneriaeth â chydweithwyr cynradd?
- Sut byddwch yn addasu addysgu yn eich maes dysgu i hwyluso unrhyw ddatblygiadau?
- Sut byddwch yn gwybod a fu eich dulliau newydd yn llwyddiannus?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod eich cwricwlwm yn gynhwysol ac yn hyrwyddo mynediad teg i brofiadau i bob disgybl, gan gynnwys rhai o gefndiroedd difreintiedig yn gymdeithasol ac economaidd?

Am fwy o wybodaeth am gynllunio'r cwricwlwm, ewch i https://www.estyn.llyw.cymru/blog/treialu-gwerthuso-profiadau-dysgu-dilys-paratoi-cwricwlwm-i-gymru